Ein Gweledigaeth

Gall cynghorau chymuned a tref chwarae rhan hanfodol mewn creu a chynnal ymdeimlad cryf o gymuned ac yn wir maent yn gwneud hynny. Drwy hybu datblygiadau lleol, gweithio ochr yn ochr â phartneriaid sydd wedi eu lleoli yn y gymuned neu'n ei chefnogi, gall y rhyngweithio cynyddol rhwng unigolion yn y gymuned arwain at agwedd bositif ac ymdeimlad o les. Wrth i gymunedau unigol Cymru ddatblygu fel hyn byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru. Am y rheswm hwn y weledigaeth y mae Un Llais Cymru'n ei hyrwyddo yw:

Cymunedau Deinamig ar gyfer Cenedl Ddeinamig

Datganiad Cenhadaeth i Un Llais Cymru

Nod Un Llais Cymru yw cefnogi cynghorau cymuned a thref i gyflawni'r weledigaeth hon ac mae wedi mabwysiadu'r datganiad cenhadaeth canlynol i lywio'i waith:

Cynrychioli buddiannau cynghorau cymuned a thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth; a gweithio'n gydweithredol â'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru.

Nodau Craidd

O fewn cwmpas y Datganiad Cenhadaeth, adnabuwyd chwe Nod Craidd. Dylai popeth y mae'r sefydliad yn ei wneud fod yn cyfrannu at foddhau un neu fwy o'r Nodau Craidd:

1) Gweithredu fel yr un llais cynrychioladol i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, datblygu Un Llais Cymru fel bo angen i fodloni'r nod hwn;

2) Hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ehangach o rôl a chyfraniad cynghorau cymuned a thref;

3) Datblygu a chynghori ar bolisi sy'n ymwneud â'r sector;

4) Darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor o safon uchel i gynghorau sy'n aelodau o Un Llais Cymru;

5) Darparu hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau cynghorwyr a swyddogion; a

6) Hybu cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy gan gynghorau cymuned a thref.